

# Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 - Rhan 7 Adran 127

## Canllawiau ar Orchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion

Bydd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn trawsnewid yn llwyr y ffordd y caiff gwasanaethau cymdeithasol eu darparu yng Nghymru i ddiwallu anghenion yr unigolyn a gwneud gwasanaethau'n gynaliadwy ar gyfer y dyfodol. Bydd yn dod i rym ym mis Ebrill 2016.

Mae'r Ddeddf yn rhoi llais cryfach a rheolaeth wirioneddol i bobl dros y cymorth y mae ei angen arnynt i ddileu rhwystrau i'w llesiant. Mae'n canolbwyntio ar ymyrryd yn gynharach i atal anghenion rhag dod yn ddifrifol, ac mae'n hyrwyddo'r arfer o fuddsoddi mewn adnoddau yn y tymor byr i roi'r gwerth gorau i bwrs y wlad ar y cyfan.

Mae'r Ddeddf hefyd yn hyrwyddo integreiddio rhwng y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol i'r graddau mwyaf posibl er mwyn cyflawni canlyniadau llesiant gwell.

Bydd canllawiau statudol mewn perthynas â Rhan 7 o'r Ddeddf a chanllawiau penodol eraill ar gyfer swyddogion awdurdodedig yn cael eu cyhoeddi maes o law.

Mae'r ddogfen frifio dechnegol hon yn rhoi crynodeb byr o'r ddyletswydd yn adran 127 o'r Ddeddf, ond nid dogfen gyfreithiol mohoni.

### Crynodeb o'r pŵer

Mae **adran 127** yn galluogi swyddog sydd wedi'i awdurdodi gan yr awdurdod lleol i wneud cais i ynad heddwch am orchymyn i alluogi'r swyddog awdurdodedig ac unrhyw berson arall sydd gyda'r swyddog i gael sgwrs breifat gyda'r person yr amheuir ei fod yn oedolyn sy'n wynebu risg, i alluogi'r swyddog awdurdodedig i ganfod a yw'r person hwnnw yn oedolyn sy'n wynebu risg a gwneud penderfyniad ynghylch pa gamau, os o gwbl, y dylid eu cymryd.

### Beth mae'n ei wneud?

Nid yw Gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion yn rhoi pŵer symud. Yr egwyddor yw y dylai oedolyn sy'n wynebu risg allu mynegi ei ddymuniadau o'i wirfodd, ac y dylid parchu ei ddymuniadau.

Mae modd gwneud Gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion os oes gan swyddog awdurdodedig sail resymol dros amau bod y person yn oedolyn sy'n wynebu risg; ei bod yn angenrheidiol i'r swyddog awdurdodedig gael gweld y person er mwyn asesu'n iawn a yw'r person hwnnw'n oedolyn sy'n wynebu risg a gwneud penderfyniad ynghylch pa gamau, os o gwbl, y dylid eu cymryd; bod gwneud gorchymyn yn angenrheidiol er mwyn cael mynediad; ac na fydd arfer y pŵer mynediad a roddir gan y gorchymyn yn peri i'r oedolyn fod mewn mwy o berygl o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso.

Nid yw Gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion yn rhoi pŵer mynediad cyffredinol. Maent yn canolbwyntio ar y dibenion penodol a amlinellir yn adran 127 (2) o'r Ddeddf. Ni ellir parhau i arfer y pŵer yn afresymol fel rhyw fath o fesur ataliol. Mae defnyddio Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion yn amodol ar egwyddor gyffredinol cymesuredd. Mae hyn yn berthnasol i nifer yr ymweliadau a nifer y bobl sydd gyda'r swyddog awdurdodedig.

### Cydweddu â'r Ddeddf

Mae'r pŵer yn ategu'r dyletswyddau a gyflwynwyd o dan adran 126 i awdurdod lleol wneud ymholiadau os oes ganddo sail

resymol dros gredu bod oedolyn yn wynebu risg.

Mae hefyd yn ategu dyletswydd gyffredinol personau sy'n arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf i ganfod barn, dymuniadau a theimladau'r unigolyn, a rhoi sylw i'r farn honno, y dymuniadau hynny a'r teimladau hynny, i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol.

### **Beth mae hyn yn ei olygu yn ymarferol?**

Rhagwelir mai anaml iawn y bydd ceisiadau'n cael eu gwneud am Orchymynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion. Dim ond pan fydd dulliau llai ymwithiol wedi methu, neu'n debygol iawn o fethu, y bydd ceisiadau'n cael eu gwneud.

Fodd bynnag, nid oes angen i swyddogion awdurdodedig profi'r angen am y Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion y tu hwnt i amheuaeth resymol. Yn rhannol, mae angen gwneud Gorchymyn oherwydd bod gwybodaeth annigonol am yr oedolyn yr amheuir ei fod yn wynebu risg.

Problem benodol ar gyfer swyddog awdurdodedig sy'n ystyried gwneud cais am Orchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion yw'r posibilrwydd mai ychydig iawn o wybodaeth sydd ar gael am yr oedolyn yr amheuir ei fod yn wynebu risg. Yn aml, bydd diffyg gwybodaeth ddibynadwy o unrhyw fath am y person, ynghyd â phryderon am ei ddiogelwch, yn cyfrannu at y penderfyniad i wneud cais am Orchymyn. Wrth baratoi cais am Orchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion, dylai swyddog awdurdodedig ystyried y canlynol:

- Os oes modd, dylai'r cais gael ei drafod gan bartneriaid asiantaethau er mwyn sicrhau ei fod yn arwain at weithredu strwythuredig, bod gan y swyddog awdurdodedig yr holl wybodaeth berthnasol, a bod paratodau digonol yn cael eu gwneud ar gyfer unrhyw weithredu ar ôl cyflwyno'r Gorchymyn. Fodd bynnag, y swyddog

awdurdodedig, gyda chymorth tîm cyfreithiol yr awdurdod lleol, sy'n gwbl gyfrifol am wneud cais am Orchymyn, ac am ei weithredu.

- Wrth wneud y cais i'r ynad heddwch, mae'n rhaid i'r swyddog awdurdodedig allu darparu tystiolaeth bod dulliau amgen a llai ymyrrol wedi'u hystyried, ond eu bod yn annigonol. O ystyried goblygiadau hawliau dynol Gorchymynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion, dim ond pan fydd popeth arall wedi methu y dylid eu defnyddio.

- Mae'n rhaid dod i gytundeb â'r heddlu, neu unrhyw asiantaeth arall, ynglŷn â'r swyddogion cysylltiedig sydd i'w nodi yn y Gorchymynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion.

Dylai'r swyddog awdurdodedig lunio 'taflen pwysu a mesur' sy'n asesu risgiau a goblygiadau gwneud cais a pheidio â gwneud cais am Orchymynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion. Byddai hyn yn cynorthwyo'r swyddog awdurdodedig i ystyried y cais, ac yn gymorth i ynadon heddwch pan fydd cais yn cael ei gyflwyno.

### **Rhagor o wybodaeth**

#### **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014:**

<http://www.senedd.cynulliad.cymru/mglIssueHistoryHome.aspx?Ild=5664>

#### **Rhagor o wybodaeth o wefan Llywodraeth Cymru:**

<http://gov.wales/topics/health/socialcare/?skip=1&lang=cy>

#### **Hyb Gwybodaeth a Dysgu Cyngor Gofal Cymru:**

<http://www.cgymru.org.uk/hyb-deall-y-ddeddf/?force=2>